MOSTYN

ORIEL CAFFI SIOP
12 Vaughan St, Llandudno LL30 1AB

CANLLAW ARDDANGOSFA FFORMAT MAWR

JACQUELINE DE JONG
THE ULTIMATE KISS

9 HYDREF 2021 - 6 CHWEFROR 2022

LLAWR GWAELOD

CYFLWYNIAD

Mae Jacqueline de Jong yn cael ei ystyried yn un o ffigurau artistig hanfodol yr avant-garde ar ôl-ryfel. Yr arddangosfa hon yw'r cyflwyniad unigol sefydliadol cyntaf o'i gwaith cyfoethog a chymhleth o'r 1960au hyd at nawr yn y DU. Nododd ei rôl yn y Situationist International ('SI') ei blynyddoedd cynnar ym Mharis yn y 1960au, lle bu hi'n cymryd rhan weithredol yn y protestiadau myfyrwyr ym mis Mai 1968. Ochr yn ochr â'i gwaith fel golygydd a dylunydd - yn fwyaf nodedig ar gyfer The Situationist Times, a sefydlodd ac a gyhoeddodd rhwng 1962 a 1967 - mae De Jong wedi datblygu arfer unigryw ar draws paentio, cerflunio a pherfformio yn rhychwantu hanner canrif.

Yn symud yn chwareus rhwng arddulliau ac idiomau paentiol trwy gydol ei gyrfa, mae hi'n dangos diddordeb gwancus yn y ddelwedd wedi'i phaentio fel safle ar gyfer dryswch a thanseiliad. Mae hi wedi ymchwilio i lawer o'r genres darluniadol sydd wedi nodi'r 20fed ganrif fel Ciwbiaeth, Mynegiadaeth, Celf Bop, Ffotorealiaeth a'r traddodiad o baentio tirlun. Trwy fenthyg eu trosiadau diffiniol yn barhaus ac eto gwrthod unrhyw labelu statig, mae hi wedi creu iaith weledol unigryw a thanseiliol. Yn fynegiadol ond yn realistig, mae ei gwaith yn arddangos yr erotig, trais a hiwmor di-rwystr.


4
5
3
6
2
1

YSTAFELL 1

Wrth fynd i mewn i'r arddangosfa, i'r chwith o'r fynedfa, mae arddangosfa o raffeg, llyfrau ac effemera eraill o'r 1960au hyd yn hyn. Mae'r deunydd a gyflwynir yn datgelu ei gwaith fel golygydd a chynhyrchydd llyfrau artistiaid fel The Situationist Times y mae rhifyn 3 ohono wedi'i neilltuo i ddiwylliant Prydain. Mae'r deunydd a gyflwynir yn datgelu ei gwaith fel golygydd a chynhyrchydd llyfrau artistiaid fel The Situationist Times y mae rhifyn 3 ohono wedi'i neilltuo i ddiwylliant Prydeinig. Tra bod de Jong yn ystyried bod ei gwaith fel golygydd a theipograffydd ar wahân i'w hymarfer artistig, mae ganddo le canolog yn ei oeuvre ehangach.



0) Bon appétit, 1986
Lithofrafff ar bapur
Rhifyn o 20
Trwy garedigrwydd yr artist

1) Accidental, 1965
Lithograff ar bapur
Rhifyn o 35 + 1 p.a.
Trwy garedigrwydd yr artist

2) Three Clouds, 1967
Lithograff ar bapur
Rhifyn o 190 + 12 p.a.
Trwy garedigrwydd yr artist

3) LA RÉFORME LA SOCIÉTÉ ÉTUDIANTS Participez au Mouvement à l'UNEF, 1968
Poster torlun leino
Maint argraffiad anhysbys
Trwy garedigrwydd yr artist

4) RÉFORME LA SOCIÉTÉ OUVRIERS ÉTUDIANTS Participez Mouvement soutien, 1968
Poster torlun leino
Maint argraffiad anhysbys
Trwy garedigrwydd yr artist

5) Le pouvoir au peuple, 1968
Poster torlun leino
Maint argraffiad anhysbys
Trwy garedigrwydd yr artist

6) BIGGER SPLASH, 1967
Lithograff ar bapur
Rhifyn o 190 + 4 p.a.
Trwy garedigrwydd yr artist

7) SPLASH, 1967
Lithograff ar bapur
Rhifyn o 10 p.a.
Trwy garedigrwydd yr artist
a Pippy Houldsworth Gallery, Llundain

8) Flipper, 1973
Poster sgrin sidan
Rhifyn o 100
Trwy garedigrwydd yr artist

9) Jacqueline de Jong
[Parijs – Amsterdam], 1969
Poster sgrin sidan
Rhifyn o 100
Trwy garedigrwydd yr artist

10) Poster for 'Vie privée de
Cosmonautes',1966
Poster sgrin sidan
Rhifyn o 11
Trwy garedigrwydd yr artist

11) Poster for Galleri Engström,
Stockholm, 1978
Poster sgrin sidan
Maint argraffiad anhysbys
Trwy garedigrwydd yr artist

12) Bande avant, 1977
Lithograff ar bapur
Rhifyn o 25 + 1 a.p.
Trwy garedigrwydd yr artist

13) Pinball Wizard II, 1973
Argraffu sgrin sidan ar bapur
Rhifyn o 100
Trwy garedigrwydd yr artist

14) Pinball Wizard I, 1973
Argraffu sgrin sidan ar bapur
Rhifyn o 100
Trwy garedigrwydd yr artist

15) Untitled, 1974
Acrylig ac inc India ar bapur
Trwy garedigrwydd yr artist

16) The Pig, 1974
Acrylig ac inc India ar bapur
Trwy garedigrwydd yr artist

17) Mange ta soupe, 1975
Lithograff ac in car bapur
Rhifyn o 190
Trwy garedigrwydd yr artist

18) The perfect cookbook, 1975
Lithograff ar bapur
Rhifyn o 190
Trwy garedigrwydd yr artist

19) ,,Magic" (Pistool), 1981
Lithograff lliw ar bapur
Rhifyn o 75
Trwy garedigrwydd yr artist

20) No Bird, 1985
Lithograff ar bapur
Rhifyn o 100
Trwy garedigrwydd yr artist

21) La véritable Histoire de BF15, 2017
Print digidol, ffon olew a gel
nepheline ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

22) Oceanic Potatoes, 2018
Print digidol, ffon olew a gel
nepheline ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

23) QuasiModo and QueenKong, 1981
Sgrin sidan ar bapur Japaneaidd
Rhifyn o 35
Trwy garedigrwydd yr artist

YSTAFELL 1 - wedi'i pharhau



24) CWPWRDD GYDWR

a) The Situationist Times, no. 1, May 1962
Argraffiad o 1,000 + 90 p.a., 60 p.

b) The Situationist Times, no. 2, September 1962
Argraffiad o 1,000, 64 p.

c) The Situationist Times, no. 3, January 1963
Argraffiad o 1,000, 96 p.

d) The Situationist Times, no. 4, October 1963
Argraffiad o 2,000, 184 p.

e) The Situationist Times, no. 5, December 1964
Argraffiad o 1,600, 220 p.

f) The Situationist Times, no. 6, December 1967
Argraffiad o 2,000 + 500 anfasnachol

Pob un trwy garedigrwydd yr artist, eithrio ar gyfer The Situationist Times, no. 3, Casgliad Thierry Lenoir

YSTAFELL 1 - wedi'i pharhau



25) CWPWRDD GYDWR

a) Potato Blues :
La Psychogéographie des pommes de terre, 2017
Paris: onestar press
Argraffiad o 250, 60 p.
Trwy garedigrwydd yr artist

b) Accidental Paintings, 1964
Exhibition catalogue [Galerie Westing, Odense, Medi 19 - Hydref 12 1964] 12 p.
Courtesy of the artist

c) Mourning in the Morning, 2012
Livorno: Edizioni Roberto Peccolo
Argraffiad o 170 + 30 p.a., 32 p.
Trwy garedigrwydd yr artist

d) Table, 1966
La Louvière: Le Daily-Bu
Argraffiad o 1,000,
Trwy garedigrwydd yr Wiels, Brussels

e) Asger Jorn & Jacqueline de Jong, The Case of the Ascetic Satyr, Snapshots from Eternity
New York: D.A.P., 2015
Argraffiad o 200, 2 gyfrol, 56 p., 1 ffolder, 48 eitemau effemera
Trwy garedigrwydd yr artist

YSTAFELL 2

Wedi'u chyflwyno yn Ystafell 2 yw weithiau cynnar o'r gyfres Accidental a Suicidal, a greodd de Jong ym Mharis yn yr 1960au cynnar, tra'n aelod o'r SI ac yn agos at lawer o gylchoedd artistig allweddol avant-garde yn y cyfnod ar ôl-ryfel fel y Gruppe SPUR. Yn fynegiadol o ran arddull, mae'r gweithiau hyn yn cyflwyno ffigurau hybrid anghenfil wedi'u terfysgu mewn gweithredoedd rhywiol a threisgar o ddwyster uwch.



1) Admiration de la reine verte, 1961
Olew ar gynfas
Museum Jorn, Silkeborg

2) Mr. Homme attaque Mr. Mutant, 1962
Oil on canvas
Casgliad Gwesty Ambassade, Amsterdam, Yr Iseldiroedd

3) Portrait de mon père, 1961
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd Dürst Britt & Mayhew, The Hague, Yr Iseldiroedd

4) La guardia pisse pendant la collission, 1965
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd Dürst Britt & Mayhew, The Hague,
Yr Iseldiroedd

5) Molto Rustico, 1964
Olew ar gynfas
Casgliad James Velaise, Paris

6) Celle qui préfère les voitures, 1965
Olew ar gynfas
Collection James Velaise, Paris

7) Loopgraf, 1965
Olew ar gynfas
Casgliad James Velaise, Paris

8) Qu'il a mauvais mine, 1965
Olew ar gynfas
Casgliad Preifat a thrwy garedigrwydd Pippy Houldsworth Gallery, Llundain

9) Le blouson très noire et ses femmes, 1964
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

10) Scharesliep, 1965
Olew ar gynfas
De Ying Foundation

YSTAFELL 3

Marciodd canol y 60au newid pendant yn ymarfer artistig Jaqueline de Jong wrth iddi ddechrau arbrofi gyda Chelf Bop. Defnyddir lliwiau a ffurfiau beiddgar i ddarlunio ac angori arwyddwyr cyfoes y cyfnod, megis yr oes ofod a geir yn y gyfres Cosmonaut sy'n bresennol yn Ystafell 3. Mae'r cyfnod hwn yn cyfateb i'w hymadawiad o Baris a symud i Amsterdam ym 1971. Yn ystod yr amser hwn, cynhyrchodd ei Diptychau (Chronique d'Amsterdam), (1971-3), cyfres o gesys pren sy'n gwasanaethu fel cofnodion dyddiadur darluniadol, gan nodi newid mwy mewnsyllgar yn ei gwaith.



1) Grietjes ontstoken tandvlees, 1968
Acrylig ar gynfas a phren strwythuredig
Casgliad Andrew Strauss, Paris

2) Le Salo et les Salopards, 1966
Acrylig ar gynfas, drych plastig a ffrâm bren
Les Abattoirs, Musée - Frac Occitanie Toulouse

3) TV Drawing, 1965
Ecoline ac inc India ar bapur
De Ying Foundation

4) TV Drawing, 1965
Ecoline ac inc India ar bapur wedi'i osod ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

5) Objects, c. 1966
Paent ar ddalen Perspex wedi'i fowldio
Trwy garedigrwydd yr artist

6) Wassenaarse bosbrand, 1970
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

7) Sunday afternoon, at 4.45pm, 1970
Acrylig ar gynfas
Casgliad Preifat, Paris

8) Beach boys and girls on a Bloody Sunday, 1971
Acrylig ar gynfas ar bren
Casgliad Michèle Bernstein, Paris

YSTAFELL 3 - wedi'i pharhau



9) The Pain is Beautiful, 1971
Acrylig ar gynfas ar bren
Casgliad Preifat, Paris

10) The most marvellous days of playing Fools, 1966-67
Olew ar gynfas
Casgliad Amgueddfa Frans Hals, Haarlem

11) Mr. and Miss Stake on Bank Holyday, 1966
Acrylig ar gynfas
Casgliad Preifat a thrwy gwrteisi Pippy Houldsworth Gallery, Llundain

12) Privat property of a space-technician, 1966
Acrylig ar gynfas
Museum Jorn, Silkeborg

YSTAFELL 4

Wedi'i chyflwyno mewn deialog yn Ystafell 4 mae dwy gyfres ddiweddarach, Série Noire (dechrau'r 1980au) a chyfres Billiard (canol y 1970au), sy'n datgelu newid pellach yn ei hiaith esthetig. Yma mae tensiwn yn cael ei greu trwy ddefnydd mwy cyfyngedig o baent, wedi'i ddylanwadu gan Ffotorealaeth. Mae'r llonyddwch o gynrychiolaeth sy'n diffinio'r gyfres Billiard yn cael ei wrthbwyso gan drosiadau erotig chwareus a geir yn y gweithiau a'r teitlau eu hunain. Wedi'i gyflwyno ar y waliau cyferbyn mae pedwar llun o'r Série Noire, y mae ei enw'n benthyca o gasgliad o nofelau trosedd Ffrengig a sefydlwyd ym 1945 gan y bardd, golygydd a'r actor Marcel Duhamel a oedd yn agos at y mudiad swrrealaidd. Gan nodi dychweliad i'r defnydd mwy llachar a deinamig o liw a ffurf, mae pob gwaith yn darlunio un nofel benodol. Defnyddir cyd-destun y nofel drosedd i archwilio rhai o'r themâu sy'n sail i oeuvre De Jong fel trais ac eroticism.



1) Queue (I, V, II, III, IV),1978
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

2) Beginner's Luck, 1976-78
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

3) Le carambole inspiré par un burin de J. Minne, 1976
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

4) Mysterie, 1977
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

5) How to get him, 1978
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

6) Gardez-vous à gauche, 1981
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

7) 30 maart '81, 1982
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

8) Rhapsodie en Rousse, 1981
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

YSTAFELL 5

Wedi'u cyflwyno yn Ystafell 5 yw gyfres o weithiau diweddar. Archwilir y traddodiad o baentio tirwedd, a'i droi i fyny wedi hynny fel ffigurau hybrid a defnydd mwy mynegiadol o baent yn dychwelyd i'r plân luniau. Gellir dod o hyd i hyn mewn gweithiau fel Le jour des Montagnes philoSophiques (1984), ei hun yn ganlyniad perfformiad a wnaeth de Jong fel rhan o sioe ffasiwn i'r dylunydd Sophie van Kleef. Cyflwynir y gwaith hwn mewn deialog â gweithiau eraill fel Chemin Perdu de la Chasse Frustrée (1987), Peeing Hamlet (2012) a The Ultimate Kiss (2012), sy'n rhoi teitl i'r arddangosfa. Yma, cyfeirir at farwolaeth gyda chwarae mewn gweithred chwerwfelys. Mae'r gweithiau hyn yn gweithredu fel gwrthgytbwys i naws fwy tywyll o Drowning (2012) sy'n gweithredu fel memento mori.



1) Peeing Hamlet, 2012
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

2) Chemin Perdu de la Chasse Frustrée, 1987
Olew ar gynfas
Casgliad preifat a thrwy gwrteisi Pippy Houldsworth Gallery, Llundain

3) The Ultimate Kiss, 2002-12
Olew ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

4) Out of balance, 1995
Olew ar y lliain hwylio
Trwy garedigrwydd yr artist

5) Le jour des Montagnes phil Sophiques, 1984
Olew ar gynfas
Casgliad Preifat, Yr Iseldiroedd

6) Tureluurs, 2020
Olew a gel nepheline ar gynfas
Trwy garedigrwydd yr artist

7) Drowning, 2012
Olew ar gynfas
Collection Fred Schoen, Amsterdam

YSTAFELL 6

Mae Ystafell 6 yn dangos cyfres gynharach o ganol y 1980au o'r enw Upstairs Downstairs, a gomisiynwyd gan Neuadd y Dref Amsterdam ar gyfer ei phrif risiau. Mae'r gyfres yn dal lle canolog yn yr arddangosfa ac yn gweithredu fel symbol ar gyfer oeuvre artistig cyffredinol De Jong. Mae ffigyrau gwrthun yn poblogi grisiau canolog, motiff trwy gydol y gyfres, sy'n cyfeirio at y safle y cafodd y gweithiau ei greu ar ei gyfer. Fel pob genre artistig y mae De Jong wedi arbrofi ag ef trwy gydol ei hymarfer, mae'r grisiau'n dolennu ac yn diflannu i'r plân luniau. Mae amhosibilrwydd ei ddefnydd wedi'i osod yn foel. Yn debyg i'r dérive (drifft), term a fathwyd gan yr SI, gellir deall ei gwaith unigryw fel math o droellog artistig o fewn proses barhaus o ailddyfeisio.



1) Big foot small head, 1985
Olew ar gynfas
KRC Collection
Yr Iseldiroedd

2) Upstairs-Downstairs, 1986-88
Olew ar gynfas
Amgueddfa Amsterdam

3) Upstairs-Downstairs, 1986-88
Olew ar gynfas
Amgueddfa Amsterdam

4) Upstairs-Downstairs, 1986-88
Olew ar gynfas
Amgueddfa Amsterdam

I ddysgu mwy am waith Jacqueline de Jong, mae catalog yr arddangosfa Jacqueline de Jong: The Ultimate Kiss, sy'n cynnwys testunau gan Devrim Bayar, Juliette Desorgues, Alison Gingeras, Xander Karskens, Annabelle Ténèze a Niña Weijers ar gael i'w prynu trwy wefan a siop MOSTYN.

AM YR ARLUNYDD

Ganwyd Jacqueline de Jong ym 1939 yn Hengelo, Yr Iseldiroedd. Mae hi'n byw ac yn gweithio yn Amsterdam, Yr Iseldiroedd.

CURADURON

Mae The Ultimate Kiss, wedi'i guradu gan Juliette Desorgues (Curadur y Celfyddydau Gweledol, MOSTYN) a'i drefnu mewn cydweithrediad â WIELS lle cyflwynwyd yr arddangosfa gan Xander Karskens (Cyfarwyddwr, De Ateliers) a Devrim Bayar (Curadur, WIELS) (1 Mai - 15 Awst 2021). Bydd yr arddangosfa yn teithio i Kunstmuseum Ravensburg, yr Almaen lle bydd yn cael ei chyflwyno yn 2022.

GEIRFA

1. Situationist International (SI)

Sefydliad rhyngwladol o chwyldroadwyr cymdeithasol sy'n cynnwys artistiaid, deallusion a damcaniaethwyr gwleidyddol a ddaeth i'r amlwg yn bennaf yn Ewrop rhwng 1957 a 1972. Mewn ystyr eang, roedd SI yn fudiad radical a oedd yn ymroi i darfu ac ail-drefnu sefyllfaoedd newydd y tu hwnt i gyfalafiaeth a'r systemau sy'n llywodraethu cymdeithas bob dydd. Roedd yn fudiad a hyrwyddodd feddwl yn radical, ac a amlygodd trwy arferion artistig a gafodd effeithiau yn y byd go iawn, yn fwyaf arbennig yn nherfysgoedd Paris ym 1968 lle cafodd sloganau a graffeg SI sylw amlwg.

2. Gruppe SPUR

Roedd Gruppe SPUR yn gydweithrediad artistig a ffurfiwyd gan yr arlunwyr Almaenig Heimrad Prem, Helmut Sturm a Hans-Peter Zimmer a'r cerflunydd Lothar Fischer ym 1957. Gan gydweithio ac ymuno ag SI, cawsant eu heithrio o'r sefydliad 1962.

3. Mynegiadaeth

Mudiad celf fodernaidd yn tarddu yng Ngogledd Ewrop tua throad yr 20fed ganrif. Mae gweithiau mynegiadol yn symud i ffwrdd o realaeth, gan ddarlunio delweddau o realiti gwyrgam sy'n cyflwyno'r byd o safbwynt yr artist yn unig, gan ddefnyddio gwneud marciau ystumiol neu newid ffurfiau pobl neu wrthrychau i ennyn effaith emosiynol. Mae Mynegiadaeth Haniaethol yn mynd â hyn ymhellach trwy naill ai ystumio y tu hwnt i gydnabyddiaeth neu gefnu'n llwyr ar gynrychiolaeth.

4. Celf Bop

Yn dod i'r amlwg yn y 1950au ac yn blodeuo yn y 60au yn America a Phrydain, tynnodd ysbrydoliaeth o ffynonellau mewn diwylliant poblogaidd a masnachol, megis hysbysebu, llyfrau comig a gwrthrychau wedi'u masgynhyrchu.

5. Ffotorealaeth

Yn cwmpasu paentio, darlunio a chyfryngau graffig eraill mae artistiaid yn y genre hwn yn atgynhyrchu delweddau sy'n bodoli'n realistig mewn cyfryngau eraill.

6. Peintio Tirwedd

Traddodiad artistig mawreddog, yn enwedig mewn paentio a darlunio sy'n darlunio golygfeydd naturiol, strwythurau o waith dyn a phobl yn byw ynddynt. Yn gysylltiedig yn gyffredin â thraddodiadau artistig y Gorllewin, gellir olrhain y genre yn ôl i'r 4edd Ganrif yn Tsieina.

7. Memento Mori

Symbol artistig neu lenyddol sy'n golygu ein hatgoffa o anochel marwolaeth.

8. Oeuvre

Corff cyffredinol gwaith artist trwy gydol ei oes a'i yrfa.

9. Dérive (drifftiau)

Term a fathwyd gan Guy Debord, Damcaniaethwr ac athronydd Marxis Ffrengig sy'n cyfeirio at fath o ymddygiad arbrofol lle mae grŵp yn gwneud taith heb ei gynllunio trwy dirwedd drefol, cefnu ar eu cysylltiadau personol â'r lle a gadael iddynt gael eu tynnu i mewn gan atyniadau'r tir a'r cyfarfyddiadau y maent yn dod o hyd iddynt yno.

10. Seicogeograffeg

Cyfuniad o seicoleg a daearyddiaeth, sy'n disgrifio'r effaith y mae lleoliad daearyddol a'i gynnwys yn ei chael ar ymddygiadau ac emosiynau unigol a chymdeithasol.

CYFEIRIADAU

a. The Ultimate Kiss, Devrim Bayar, Juliette Desorgues, Xander Karsken, Annabelle Teneze, Nina Weijers, Alison M.Gingeras, Yale University Press, 2021

b. These are situationist times! - an inventory of reproduction deformations, modifications, derivations, and transformations, Jacqueline de Jong, Cyhoeddwyd yn dilyn yr arddangosfa “The Situationist Times: Same Player Shoots Again! International Tilt Exhibition” at Torpedo / PUB Oslo, 2018

c. Jacqueline de Jong, Potato Blues, Jacqueline de Jong, onestar press, 2017

d. AWARE Outstanding Merit Prize: Jacqueline de Jong - Interview With Gallien Déjean, Gallien Déjean, Manuella Editions, 2020

e. The Society of the Spectacle, Guy Debord, cyfieithwyd gan Donald Nicholson-Smith, Zone Books, 1967

f. The Situationist International: A Critical Handbook, Alastair Hemmens, Gabriel Zacarias, Pluto Press, 2020

g. Situationist International Anthology, Ken Knabb, Ingram International Inc, 2007

h. All the King’s Horses, Michele Bernstein, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn Situationist International, 1960. Ailgyhoeddwyd yn Saesneg gan John Kelsey Semiotext(e) I a history of the present, 2004.

i. The Beach Beneath the Street, The Everyday Life and Glorious Times of the Situationist International, McKenzie Wark, Verso, 2015

j. 50 Years of Recuperation of the Situationist International, McKenzie Wark, The Temple Hoyne Buell Center for the Study of American Architecture, gyda Princeton Architectural Press, 2008

Mae'r Tîm Ymgysylltu hefyd ar gael i'ch cefnogi os oes gennych unrhyw gwestiynau neu anghenion mynediad ychwanegol.

Mae MOSTYN o hyd yn ceisio gwella hygyrchedd ein hadeilad a'n rhaglen. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau o ffyrdd y gallwn wneud eich profiad yn fwy positif gallwch roi adborth i'n Tîm Ymgysylltu.

Gallwch hefyd roi eich adborth i ni trwy e-bostio engagement@mostyn.org neu dros y ffôn ar 01492 879201.

AMSEROEDD AGOR

ORIEL
Tue - Sun: 10:30 - 17:00

SIOP
Tue - Sun: 10:30 - 17:00

CAFFI
Tue - Sun: 10:30 - 17:00

CYSWLLT

Cyfeiriad:
MOSTYN, 12 Stryd Vaughan,
Llandudno, LL30 1AB
Cymru, UK

FACEBOOK: mostyngallery
TWITTER: mostyn_wales_
INSTAGRAM: mostyngallery

E-bost: post@mostyn.org
Ffôn: +44 (0)1492 879 201

Gyda chymorth gan:

WIELS
KUNSTMUSEUM RAVENSBURG
Kingdom of the Netherlands
mondriaan fund
PIPPY HOULDSWORTH GALLERY
The Tyrer Charitable Trust
Dürst Britt & Mayhew

Diolch i gefnogaeth reolaidd:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL